OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2025 Rhif (Cy. )**

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Trethadwy) (Cymru) 2025

DRAFFT

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 3 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") yn diffinio annedd ("dwelling") at ddibenion Rhan 1 o'r Ddeddf honno.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer achosion pan fo eiddo a fyddai fel arall yn cael ei drin fel annedd unigol i'w drin fel mwy nag un, yn ddarostyngedig i reoliadau 4, 5 a 6.

Mae rheoliad 4 yn darparu'r cyfrifiad i sefydlu nifer yr anheddau mewn cartref gofal.

Mae rheoliad 5 yn darparu bod rhaid trin llochesau fel annedd unigol.

Mae rheoliad 6 yn darparu bod rhaid trin Tai Amlfeddiannaeth fel annedd unigol.

Mae rheoliad 7 yn rhoi disgresiwn i'r swyddog rhestru drin beth fyddai fel arall yn anheddau lluosog fel annedd unigol, mewn amgylchiadau rhagnodedig.

Mae rheoliad 8 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Trethadwy) 1992 fel ei fod yn gymwys o ran Lloegr yn unig.

Mae rheoliadau 9 i 17 yn gwneud diwygiadau canlyniadol angenrheidiol pellach i is-ddeddfwriaeth arall. Yn benodol, mae rheoliad 14(4) yn darparu bod newid i'r rhestr brisio i drin tŷ amlfeddiannaeth fel annedd unigol yn cael effaith o'r diwrnod y cyflwynir cynnig i'r swyddog rhestru, drwy fewnosod darpariaeth newydd yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993.

Mae rheoliad 18 yn dirymu Gorchymyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Diwygio

Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac fe'i cyhoeddir ar www.llyw.cymru.

DRAFFT

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif (Cy. )

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Trethadwy) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2025* |

DRAFFT

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 3(5)(a) a (b) a 24(1) a (7)(a) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy (**2**) a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 113(1) a (2) o'r Ddeddf honno(**3**).

**Enwi, cymhwyso a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Trethadwy) (Cymru) 2025.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2025.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) 1992 p. 14. Caniateir arfer y pŵer i wneud gorchymyn o dan adran 3(5)(a) a (b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 er mwyn gwneud rheoliadau yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2(1) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Fe'u trosglwyddwyd wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) Diwygiwyd adran 113(1) a (2) gan baragraff 52 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26) ac adran 80(4) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20). Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

mae i “annedd” yr ystyr a roddir i “dwelling” gan adran 3 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;

ystyr “cartref gofal” (“*care home*”) yw man lle y mae gwasanaeth cartref gofal, o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**), yn cael ei ddarparu yn gyfan gwbl neu’n bennaf i bersonau 18 oed neu’n hŷn;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;

ystyr “eiddo lluosog” (“*multiple property*”) yw eiddo yng Nghymru a fyddai, ar wahân i’r Rheoliadau hyn, yn ddwy annedd neu ragor o fewn ystyr adran 3 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;

ystyr “eiddo sengl” (“*single property*”) yw eiddo yng Nghymru a fyddai, ar wahân i’r Rheoliadau hyn, yn un annedd o fewn ystyr adran 3 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

ystyr “Gorchymyn 1992” (“*the 1992 Order*”) yw Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Trethadwy) 1992(**2**);

ystyr “lloches” (“*refuge*”) yw adeilad yng Nghymru a weithredir gan berson ac eithrio i wneud elw ac a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu’n bennaf fel llety dros dro i bersonau sydd wedi bod yn agored i unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau yn ymwneud â’r canlynol—

(a) ymddygiad rheolaethol, gorfodaethol neu fygythiol,

(b) trais corfforol,

(c) camdriniaeth o unrhyw ddisgrifiad (boed yn gorfforol neu’n feddyliol ei natur), neu

(d) bygythiadau o unrhyw drais neu gamdriniaeth o’r fath,

gan bersonau y maent yn briod â hwy neu roeddent yn briod â hwy, y maent mewn partneriaeth sifil â hwy neu roeddent mewn partneriaeth sifil â hwy neu y maent yn cyd-fyw â hwy neu roeddent yn cyd-fyw â hwy;

rhaid dehongli “swyddog rhestru” (“*listing officer*”) yn unol ag adran 20 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;

ystyr “uned hunangynhwysol” (“*self-contained unit*”) yw adeilad neu ran o adeilad yng Nghymru sydd wedi ei adeiladu neu ei hadeiladu neu sydd wedi ei addasu neu ei haddasu i’w ddefnyddio neu ei defnyddio fel llety byw ar wahân.

---

(**1**) 2016 dccc 2.

(**2**) O.S. 1992/549, a ddiwygiwyd gan O.S. 1997/656, 2004/2921 (Cy. 260), 2012/1915, 2014/2653 (Cy. 261) a 2018/48 (Cy. 15).

DRAFT

### Eiddo sydd i'w trin fel mwy nag un annedd

**3.**—(1) At ddibenion Rhan 1 o'r Ddeddf (y dreth gyngor: Cymru a Lloegr), pan fo eiddo unigol yn cynnwys mwy nag un uned hunangynhwysol—

(a) rhaid trin yr eiddo fel pe bai'n cynnwys cynifer o anheddau ag y mae unedau o'r fath ynddo, a

(b) rhaid trin pob uned o'r fath fel annedd unigol.

(2) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i reoliadau 4, 5 a 6.

**4.**—(1) Rhaid trin cartref gofal fel pe bai'n cynnwys nifer yr anheddau a ganfyddir drwy ychwanegu un at nifer yr unedau hunangynhwysol sydd—

(a) wedi ei meddiannu gan y person a gofrestrwyd mewn cysylltiad â'r cartref gofal yn unol â Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol), neu

(b) os nas meddiannir ar hyn o bryd, wedi ei darparu at ddiben lletya'r person hwnnw.

(2) Rhaid trin pob uned o'r fath fel un annedd.

**5.** Rhaid trin lloches fel annedd unigol.

**6.**—(1) Rhaid trin tŷ amlfeddiannaeth fel annedd unigol.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "tŷ amlfeddiannaeth" yw adeilad neu ran o adeilad yng Nghymru sy'n "house in multiple occupation" fel y'i diffinnir gan adran 254 o Ddeddf Tai 2004(**1**) ond fel pe bai is-adrannau 1(e) a (5) o'r adran honno wedi eu hepgor.

### Eiddo y caniateir eu trin fel annedd unigol

**7.**—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 6, pan fo eiddo lluosog—

(a) yn cynnwys uned hunangynhwysol unigol, neu uned o'r fath ynghyd â neu sy'n cynnwys eiddo a adeiladwyd neu a addaswyd at ddibenion annomestig, a

(b) wedi ei feddiannu fel mwy nag un uned o lety byw ar wahân,

caiff y swyddog rhestru, os yw'r swyddog yn meddwl ei bod yn briodol, drin yr eiddo fel annedd unigol.

(2) Wrth arfer y disgresiwn ym mharagraff (1) uchod, rhaid i'r swyddog rhestru roi sylw i holl amgylchiadau'r achos, gan gynnwys i ba raddau, os o gwbl, y mae rhannau o'r eiddo a feddiannir ar wahân wedi eu haddasu'n strwythurol.

---

(**1**) 2004 p. 34.

DRAFFT

**Diwygiadau canlyniadol i Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Trethadwy) 1992**

**8.**—(1) Mae Gorchymyn 1992 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2 (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "care home" hepgorer is-baragraff (b) a'r "and" o'i flaen;

(b) yn y diffiniad o "HMO", ar ôl "part of a building" mewnosoder "in England";

(c) yn y diffiniad o "multiple property", ar ôl "means property" mewnosoder "in England";

(d) hepgorer y diffiniad o "refuge";

(e) yn y diffiniad o "single property", ar ôl "means property" mewnosoder "in England";

(f) yn y diffiniad o "self-contained unit", ar ôl "part of a building" mewnosoder "in England".

(3) Yn erthygl 3 (eiddo unigol sy'n cynnwys mwy nag un uned hunangynhwysol), hepgorer "and 3B".

(4) Yn erthygl 3A (cartrefi gofal), hepgorer "Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 in relation to Wales, or".

(5) Hepgorer erthygl 3B (llochesau).

**Diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Sefyllfa Anheddau a'u Prisio) 1992**

**9.** Yn rheoliad 1(2) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Sefyllfa Anheddau a'u Prisio) 1992(**1**) (dehongli), yn y diffiniad o "single property", ar ôl "Council Tax (Chargeable Dwellings) Order 1992" mewnosoder "in relation to England and the Council Tax (Chargeable Dwellings) (Wales) Regulations 2025 in relation to Wales".

**Diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gostyngiadau am Anableddau) 1992**

**10.** Yn rheoliad 1(5) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gostyngiadau am Anableddau) 1992(**2**) (dehongli), ar ôl "Council Tax (Chargeable Dwellings) Order 1992" mewnosoder "in relation to England and regulation 3 or 7 of the Council Tax (Chargeable Dwellings) (Wales) Regulations 2025 in relation to Wales".

(**1**) O.S. 1992/550, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 1992/554. Mewnosodwyd adran 1(5) gan reoliad 2(b) o O.S. 1993/195. Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

DRAFT

**Diwygio Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992**

**11.** Yn erthygl 2(1) o Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992(**1**) (dehongli), yn y diffiniad o “single property”, ar ôl “Council Tax (Chargeable Dwellings) Order 1992” mewnosoder “in relation to England and the Council Tax (Chargeable Dwellings) (Wales) Regulations 2025 in relation to Wales”.

**Diwygio Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992**

**12.** Yn rheoliad 17(1B) o Reoliadau’r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992(**2**) (gwybodaeth a roddir gan swyddog rhestru), ar ôl “Council Tax (Chargeable Dwellings) Order 1992”, mewnosoder “in relation to England and regulation 3 or 7 of the Council Tax (Chargeable Dwellings) (Wales) Regulations 2025 in relation to Wales”.

**Diwygio Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993**

**13.** Yn rheoliad 2(3) o Reoliadau’r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993(**3**) (dehongli), yn lle “article 3 or 4 of the Council Tax (Chargeable Dwellings) Order 1992” rhodder “regulation 3 or 7 of the Council Tax (Chargeable Dwellings) (Wales) Regulations 2025”.

**Diwygio Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993**

**14.**—(1) Mae Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5(1)(a) (amgylchiadau a chyfnodau y caniateir gwneud cynigion ynddynt)—

(a) yn lle “article 3 of the Council Tax (Chargeable Dwellings) Order 1992” rhodder “regulation 3 of the Council Tax (Chargeable Dwellings) (Wales) Regulations 2025”,

(b) yn lle “article 4 of that Order” rhodder “regulation 7 of those Regulations”.

---

(**1**) O.S. 1992/558. Mewnosodwyd y diffiniad o “single property” gan erthygl 3(2) o O.S. 1997/656. Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 1992/613. Mewnosodwyd rheoliad 17(1B) gan reoliad 2(b) o O.S. 1993/196. Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(**3**) O.S. 1993/255. Mewnosodwyd rheoliad 2(3) gan reoliad 3(2) o O.S. 2004/460. Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(**4**) O.S. 1993/290. Mewnosodwyd rheoliad 14(5A) gan reoliad 2(3)(b) o O.S. 2023/1082 (Cy. 186), ac amnewidiwyd rheoliad 14(7) gan reoliad 2(3)(d) o’r Rheoliadau hynny. Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

DRAFT

(3) Yn rheoliad 14(5A)(b) (y diwrnod y mae newid yn cael effaith), yn lle “article 3 of the Council Tax (Chargeable Dwellings) Order 1992” rhodder “regulation 3 of the Council Tax (Chargeable Dwellings) (Wales) Regulations 2025”.

(4) Ar ôl rheoliad 14(7) mewnosoder—

> “(7A) Where an alteration is made in pursuance of a proposal to treat an HMO as a single dwelling to give effect to regulation 6 of the Council Tax (Chargeable Dwellings) (Wales) Regulations 2025, the alteration has effect from the day on which the proposal was served on the listing officer.”

**Diwygio Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015**

**15.** Yn rheoliad 6(2) o Reoliadau’r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015(**1**) (dosbarth 3), yn lle “Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Trethadwy) 1992” rhodder “Reoliadau’r Dreth Gyngor (Anheddau Trethadwy) (Cymru) 2025”.

**Diwygio Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2018**

**16.** Yn Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2018(**2**), hepgorer paragraff 4(3) o Atodlen 1 (diwygiadau canlyniadol).

DRAFT

**Diwygio Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Taladwy, Anheddau Esempt a Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2004**

**17.** Yng Ngorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Taladwy, Anheddau Esempt a Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2004(**3**), hepgorer erthygl 2.

**Dirymu**

**18.** Mae Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Trethadwy) (Diwygio) (Cymru) 2014(**4**) wedi ei ddirymu.

---

(**1**) O.S. 2015/2068 (Cy. 311), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.
(**2**) O.S. 2018/48 (Cy. 15), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.
(**3**) O.S. 2004/2921 (Cy. 260).
(**4**) O.S. 2014/2653 (Cy. 261).